


Llyfrynau yn y gyfres: Byw gyda dementia




1502



1503



1504



1505



1506



1507



1508



1509

I archebu un copi am ddim o bob llyfryn (bydd copïau ychwanegol yn costio 50c yr un), ffoniwch Xcalibre ar 01628 529240 neu anfonwch e-bost at alzheimers@xcalibrefs.co.uk.

Cymdeithas Alzheimer

Swyddfa Gogledd a Gorllewin Cymru
6a Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF
Ffôn: 01248 671137
E-bost: nwa@alzheimers.org.uk
alzheimers.org.uk

Swyddfa Cymru

16 Rhodfa Columbus
Glanfa Iwerydd
Caerdydd
CF10 4BY
Ffôn: 029 2048 0593
E-bost: rows@alzheimers.org.uk

Adolygwyd y llyfryn yma yn 2008 gan aelodau o raglen Cymdeithas Alzheimer ar Fyw gyda Dementia, a aeth ati i'w ddiwygio hefyd yn 2010. Cyfieithwyd y llyfryn yn 2012 gan Uned Cymraeg Clir, Prifysgol Bangor. Cafodd y gyfres yma o lyfrynau ei chreu oherwydd cefnogaeth hael Francelle Bradford.

©Cymdeithas Alzheimer 2010

Llinell Gymorth Cymdeithas Alzheimer ar Dementia
Cymru a Lloegr 0845 3000 336 Gogledd Iwerddon 028 9066 4100 Elusen gofrestredig rhif 296645 Cwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Lloegr dan rif 2115499
1501

alzheimers.org.uk

Cymdeithas
Alzheimer's | Arwain yr
ymgyrch yn erbyn
dementia

Rheoli eich arian



Os oes dementia arnoch chi, mae rheoli eich arian o ddydd i ddydd yn gallu bod yn anodd. Fe allech chi anghofio talu biliau, neu fe allech chi godi arian o'r banc ac anghofio wedyn lle'r ydych chi wedi rhoi'r arian. Mae hyd yn oed rheoli arian parod yn gallu bod yn anodd – cyfrif eich newid ac adnabod gwerth y darnau arian a'r arian papur, er enghraifft. Mae nifer fawr o ffyrdd ar gael erbyn hyn o ddelio ag arian. Rydyn ni'n disgrifio yn y llyfryn yma rai o'r dulliau a fyddai'n gwneud eich bywyd yn haws.

Efallai byddwch chi'n awyddus i gynllunio sut byddwch chi'n rheoli eich arian yn y dyfodol, wrth i'ch salwch ddatblygu. Efallai y daw adeg pan fyddwch chi'n awyddus i ofyn i rywun arall weithredu ar eich rhan. Mae'n werth meddwl am hyn ymlaen llaw.

Cyfrifon banc ar y cyd

Y math mwyaf cyffredin o gyfrif banc ar y cyd yw'r un sy'n golygu y gallech chi neu'ch partner lofnodi sieciau a chodi arian o'r banc. Bydd eich banc yn ei alw'n gyfrif 'either-to-sign joint account', sy'n golygu y gall y naill neu'r llall ohonoch drin yr arian.

Os mai'r math yma o gyfrif banc sydd gennych, ac os mai'ch partner sy'n trin a thrafod cyfrifon eich cartref, gall eich partner dalu am bethau heb i chi orfod llofnodi unrhyw sieciau.

Er hynny, mae'r rhan fwyaf o gyfrifon banc ar y cyd wedi cael eu creu ar y sail fod y gallu gan y naill barti a'r llall i reoli'r arian sydd yn y cyfrif. Mae'n bwysig cofio bod cyfrifoldeb cyfreithiol ar y naill a'r llall ohonoch dros yr arian sy'n dod allan o gyfrif banc sydd yn enwau'r ddau ohonoch.

Gallwch chi agor cyfrif banc ar y cyd gyda rhywun heblaw am eich gŵr neu'ch gwraig

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk

Os bydd banc yn gwybod bod rhywun yn gweithredu mewn atwrneiaeth barhaus neu atwrneiaeth arhosol, neu fel dirprwy ar ran rhywun arall, byddan nhw'n gofyn fel arfer am gyfrif banc ar wahân i'r person â dementia, yn hytrach na chyfrif banc ar y cyd.

O safbwynt cadw cyfrifon ar wahân, mae'n werth defnyddio cyfrif ar wahân i dalu am ofal. Dylai awdurdodau lleol fod yn gwneud profion modd ar y sawl sy'n cael gwasanaethau gofal (p'un a yw'n ofal yn y cartref neu'n ofal preswyl), ac nid ar unrhyw un arall.



Cyfrifon banc unigol

Efallai byddai'n haws i chi gadw eich cyfrif banc personol eich hun. Gallech chi drefnu bod eich cyflog, eich budd-daliadau a'ch pensiynau'n cael eu talu'n uniongyrchol i'r cyfrif, a gallwch chi dalu eich biliau o'r un cyfrif. Efallai byddai gwneud hynny'n cadw bywyd yn symlach.

- Mae ysgrifennu popeth mewn llyfr arian syml yn gallu hwyluso pethau.
- Cofiwch gynnwys unrhyw arian parod rydych chi'n ei godi o beiriant 'twll yn y wal'.

Os byddai'n well gennych ofyn i rywun arall ddelio â'ch cyfrif banc personol chi, gallwch chi ofyn i'ch banc am orchymyn trydydd parti (third party mandate). Ar ôl rhoi'r gorchymyn ar waith, bydd rhywun arall (perthynas neu ffrind agos fel arfer) yn gallu llofnodi sieciau a rheoli'r cyfrif ar eich rhan. Mae'n bwysig eich bod yn pwysu a mesur yn ofalus i bwy y byddwch chi'n gofyn iddyn nhw weithredu ar eich rhan.

Mae cyfrifon banc personol yn gallu gwneud bywyd yn symlach, ar yr amod eich bod yn cofio am bob un o'r taliadau i mewn i'ch cyfrif, a'r taliadau allan ohono

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk

Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu a llofnodi sieciau

- Defnyddiwch ben â blaen trwchus neu un â blaen ffelt i'ch helpu i ysgrifennu.
- Os ydych chi'n cael trafferth gafael mewn pennau, rhowch gynnig ar rai wedi'u haddasu neu ar declyn gafael pwrpasol.
- Efallai byddai templed plastig yn eich helpu i ysgrifennu eich llofnod yn y lle cywir.
- Os oes gennych nifer o eitemau i'w llofnodi, cymerwch seibiant rhwng pob un.
- Mae siopau'n argraffu'r sieciau weithiau, a dim ond ei llofnodi bydd rhaid i chi ei wneud.
- Mae staff llawer o siopau'n fodlon ysgrifennu sieciau ar eich rhan os byddwch chi'n gofyn am eu help.
- Mae unigolyn sy'n cael trafferth ysgrifennu'n gallu prynu stamp rwber o'i enw. Mae rhai banciau'n fodlon derbyn sieciau sydd wedi'u stampio fel hyn yn lle rhai sydd wedi'u llofnodi â llaw. Holwch yn eich banc a fyddai gwneud hynny'n dderbyniol, a gofynnwch i'r staff yno am gyngor ynglŷn ag archebu stamp.
- Gofynnwch am help therapydd galwedigaethol. Bydd eich meddyg teulu'n gallu trefnu apwyntiad i chi.

Debyd uniongyrchol

Gallwch chi dalu'r mwyafrif o'ch biliau (fel biliau nwy, trydan, dŵr, trwydded deledu a threth y cyngor) drwy ddebyd uniongyrchol. Mae'r mwyafrif o'r cwmnïau sy'n cynnig y gwasanaeth yma'n codi llai ar bobl sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol. Ar ôl rhoi'r debyd uniongyrchol ar waith, bydd eich banc yn talu eich biliau'n awtomatig – sef swm penodol y mis fel arfer. Byddwch chi'n dal i gael eich biliau er mwyn gwirio'r symiau rydych chi'n eu talu. Ond ni fyddai rhaid i chi boeni am orfod cofio ysgrifennu siec a'i phostio i'r cwmni.

Bydd y cwmnïau sy'n cyflenwi eich gwasanaethau'n gallu dweud wrthyg chi sut mae rhoi debyd uniongyrchol ar waith.



Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk

‘Chip and pin’

Dyma enw’r banciau ar fath o gardiau debyd y gallwch eu defnyddio i dalu’n ddiogel am bethau. Yn lle gorfod llofnodi eich enw, byddwch chi’n defnyddio’r pad rhifau ar declyn pwrpasol i roi rhif adnabod pedwar digid (eich rhif PIN). Gallwch chi ddewis y rhif. Dylai fod yn rhif y gallwch ei gofio’n rhwydd, ond ni ddylai pobl eraill fod yn gallu dyfalu’r rhif yn rhwydd.

Os ydych chi’n meddwl y byddwch chi’n cael trafferth cofio’r rhif, siaradwch â staff eich banc. Byddan nhw’n gallu rhoi math arall o gerdyn debyd i chi sy’n golygu y byddwch chi’n llofnodi fel arfer, wrth brynu nwyddau mewn siop. Os ydych chi’n cael trafferth llofnodi eich enw, mae math arall eto o gardiau banc ar gael, sef cerdyn â llun sy’n ffordd arall i bobl eich adnabod chi. Gallwch chi hefyd ddefnyddio stamp rwber i lofnodi eich enw (cyfeiriwch at y rhestr o awgrymiadau sydd ar dudalen 4).



Arian parod

Mae rhywun yn gallu drysu wrth drin a thrafod arian parod. Un ffordd dda o helpu yw talu biliau eich cartref drwy ddebyd uniongyrchol a defnyddio cerdyn debyd i dalu am fwyd o siop. Ceisiwch weithio allan faint o arian parod y byddwch chi ei angen bob wythnos, a chodwch y swm hwnnw o beiriant arian parod ar yr un diwrnod, bob wythnos. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn bob tro am dderbynneb am yr arian parod rydych chi’n ei godi o’r peiriant. A pheidiwch ag anghofio ysgrifennu’r swm yn eich llyfr arian bob tro. Gallwch chi hefyd ofyn i staff eich banc newid arian papur yn ddarnau arian y byddan nhw’n eu rhoi mewn bagiau plastig. Os ydych chi’n talu am yr un eitemau bob wythnos gan ddefnyddio symiau bach o arian parod, beth am gadw’r union symiau hynny mewn amlenni ar wahân?

Er enghraifft, efallai eich bod yn talu’r dyn llaeth bob dydd Gwener, ac yn talu am eich papurau newydd bob dydd Sadwrn. Ar ôl codi arian parod o’r banc unwaith yr wythnos, rhowch y gwahanol daliadau mewn amlenni. Cadwch yr amlenni mewn lle diogel hawdd ei gofio.

Peidiwch byth â gadael symiau mawr o arian yn y golwg ar hyd y tŷ, lle bydd pobl eraill yn gallu eu gweld yn hawdd

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â’r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk

Os ydych chi'n gyrru car, efallai byddai'n syniad i chi gadw peth arian parod mewn bagiau plastig ym mlwch menig eich car. Gallwch ddefnyddio'r arian i dalu am bethau fel parcio ac unrhyw dollau ffyrdd mae disgwyl i chi eu talu. Peidiwch â chadw symiau mawr o arian yn eich car. Gwnewch yn siŵr bod yr holl arian allan o'r golwg bob amser, yn enwedig pan fyddwch chi'n gadael y car wedi'i barcio yn rhywle.

Beth am ddefnyddio waled neu bwrs anodd ei golli? Mae rhai ar gael y gallwch eu hongian am eich gwddf neu eu cysylltu wrth felt. Cadwch y pwrs neu'r waled allan o'r golwg dan eich dillad. Mae cadw darnau arian mewn cynhwysydd bach fel blwch plastig ar gyfer ffilm yn gallu eu gwneud yn haws eu trin. Bydd eich therapydd galwedigaethol yn gallu eich cynghori ynglŷn â physiau neu waledi arbennig i helpu pobl i drin a thrafod arian parod. Peidiwch byth â gadael symiau mawr o arian yn y golwg ar hyd y tŷ lle bydd pobl eraill yn gallu eu gweld yn hawdd.



Budd-daliadau

Gallwch chi gael y taliadau o'r budd-daliadau mae gennych hawl i'w cael mewn un o dair ffordd:

- Mae'n bosib eu talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif gyda banc neu gymdeithas adeiladu.
- Mae cyfrif banc sylfaenol ar gael o fanciau a chymdeithasau adeiladu. Gallwch ddefnyddio'r cyfrif yma yn y swyddfeydd post yn eich ardal.
- Gallwch chi ddefnyddio cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post (cyfrif POca). Cyfrif yw hwn sydd wedi'i greu'n bwrpasol i gymryd taliadau o fudd-daliadau, pensiwn gwladol a chredydau treth. Gallwch chi hefyd enwebu rhywun arall rydych chi'n ymddiried ynddo i gael cerdyn a defnyddio'r arian sydd yn eich cyfrif.

Gallwch chi hefyd benodi rhywun ('penodai') i reoli eich incwm o fudd-daliadau os byddwch chi'n dechrau cael trafferth gwneud hynny eich hun. Bydd rhaid i'r penodai hwnnw wneud cais i swyddfa'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eich ardal am ganiatâd i reoli eich arian. Bydd y penodai'n un o'ch perthnasau agos fel arfer, a bydd naill ai'n byw gyda chi neu'n ymweld yn aml â chi. Mae'n bosib i ffrind neu gymydog agos weithredu fel penodai hefyd. Os ydych chi eisoes wedi trefnu atwrneiaeth barhaus (enduring power of attorney neu EPA), bydd yr atwrnai'n cymryd lle'r penodai os byddwch chi'n dechrau cael trafferth rheoli eich pethau. Mae'r atwrneiaeth arhosol (lasting powers of attorney neu LPA) wedi cymryd lle'r atwrneiaeth barhaus erbyn hyn. Mae mwy o wybodaeth am atwrneiaethau arhosol ar dudalennau 11-13.

Ymddiriedolaethau

Os ydych chi'n berchen ar eich cartref neu os oes gennych arian mewn cyfrifon cynilo, efallai y byddwch chi'n awyddus i ystyried sefydlu ymddiriedolaethau. Byddai gwneud hynny'n ffordd o sicrhau bod eich arian yn cael ei reoli yn ôl eich dymuniad chi, nawr ac yn y dyfodol. Mae creu ymddiriedolaeth yn gallu bod yn anodd, a bydd gofyn i chi siarad â chyfreithiwr. Mae nifer o wahanol fathau o ymddiriedolaethau, a gwahanol ffyrdd o'u trefnu.

Atwrneiaethau arhosol (LPA)

Ym mis Hydref 2007, cymerodd atwrneiaethau arhosol (LPA) le atwrneiaethau parhaus (EPA). Mae unrhyw atwrneiaeth barhaus a gafodd ei chymeradwyo cyn mis Hydref 2007 yn dal yn ddilys, ar yr amod bod yr atwrneiaeth wedi cael ei llofnodi gan y ddau barti. Mae atwrneiaethau arhosol (LPA) yn ffordd i bobl ddewis rhywun i reoli eu cartref, eu heiddo a'u materion ariannol, ac unigolyn (neu bobl) ychwanegol i wneud penderfyniadau ar yr agweddau personol a lles ar eu bywydau. Gallwch chi wneud atwrneiaeth arhosol os ydych chi eisoes wedi cael diagnosis o ddementia, ond rhaid i chi fod yn gallu dangos eich bod yn deall ystyr ac arwyddocâd cyfreithiol yr atwrneiaeth.



Er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth, ewch ati i drafod gyda'ch teulu a'ch ffrindiau agos eich rhesymau dros wneud atwrneiaeth arhosol (LPA)

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk

Atwrneiaeth arhosol dros eiddo a materion ariannol

Mae atwrneiaeth arhosol dros eiddo a materion ariannol yn galluogi rhywun rydych chi'n ymddiried ynndo (eich atwrnai) i reoli eich eiddo a'ch materion ariannol pan fyddwch chi'n methu gwneud hynny drosoch eich hun. Mae'r rôl yn gallu cynnwys:

- talu eich biliau
- casglu eich incwm a'ch budd-daliadau
- gwerthu eich tŷ.

Dim ond ar ôl cofrestru'r atwrneiaeth arhosol gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (Office of the Public Guardian neu OPG) y bydd yr atwrnai'n cael defnyddio'r atwrneiaeth.

Atwrneiaeth arhosol dros les personol

Mae atwrneiaeth arhosol dros les personol yn caniatáu i rywun rydych chi'n ymddiried ynndo (eich atwrnai) wneud penderfyniadau ar eich rhan ynglŷn â'ch lles personol. Mae'n cynnwys:

- penderfyniadau ynglŷn â ble byddwch chi'n byw
- yr hawl i roi caniatâd i driniaeth feddygol, neu i wrthod rhoi caniatâd.

Gallwch chi benodi mwy nag un person i weithredu ar eich rhan. Os byddwch chi'n penodi mwy nag un atwrnai, gallwch chi ddewis a fydd rhaid i bob un weithredu gyda'i gilydd, neu a fyddan nhw'n cael gweithredu ar wahân.

Cyn gwneud atwrneiaeth arhosol, dylech chi ofyn am gyngor eich cyfreithiwr. Rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen gywir, a'i llenwi a'i llofnodi'n gywir. Dylech chi ofyn i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus am ffurflen bwrpasol ar gyfer creu atwrneiaeth arhosol. Rhaid i chi a'r atwrnai lofnodi'r ffurflen, a rhaid i rywun weithredu fel tyst i'r ddau lofnod. Gall eich cyfreithiwr gadw'r ddogfen wreiddiol a rhoi copi i chi ei gadw.

Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi creu taflen wybodaeth Saesneg am atwrneiaethau parhaus sef taflen rhif 472 Enduring power of attorney and lasting powers of attorney. I gael copi am ddim o'r daflen ffoniwch 01628 529240 neu ewch i alzheimers.org.uk/factsheets.



Grymoedd yr atwrnai

Gallwch chi ddewis a fyddwch chi'n rhoi awdurdod cyffredinol i'r atwrnai wneud penderfyniadau ar eich rhan, neu'n cyfyngu ar ei awdurdod i bethau fel gwneud penderfyniadau ynglŷn â'ch eiddo. Gallwch chi restru ar eich ffurflen creu atwrneiaeth arhosol yr union benderfyniadau rydych chi'n fodlon i'r atwrnai eu gwneud. Ymhlith y ffyrdd y gallai atwrnai eich helpu mae:

- llofnodi sieciau a chodi arian o gyfrifon cynilo ar eich rhan
- prynu neu werthu tai neu gyfranddaliadau
- defnyddio'ch arian neu'ch eiddo i dalu am ofal preswyl neu ofal nyrsio.

Nid oes hawl gan yr atwrnai i'ch gorfodi i wneud unrhyw beth. Nid oes hawl ganddo i ddweud wrthyhch ble dylech chi fyw, nac i ddweud pa driniaethau meddygol dylech chi eu cael. Dylai'r atwrnai weithredu er eich lles pennaf chi, a rhoi sylw bob amser i'ch dymuniadau a'ch anghenion.

**Gallwch chi benderfynu faint o rym
y byddwch chi'n ei roi i'ch atwrnai**

Cysylltiadau defnyddiol

Age Cymru (un o ganghennau Age UK)

Tŷ John Pathy
13/14 Neptune Court
Vanguard Way
Caerdydd
CF24 5PJ

Ffôn: 029 2043 1555 (ymholiadau
cyffredinol)

0800 169 6565 (llinell gynghori
Age UK)

www.ageuk.org.uk/cymru/
E-bost: contact@ageuk.org.uk

Yn cynnig cymorth a chyngor i drigolion hŷn Cymru a'r Deyrnas Unedig. Ffurfiwyd Age UK drwy uno Age Concern a Help the Aged.

Cymdeithas Alzheimer

Swyddfa Gogledd a Gorllewin Cymru
6a Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4DF

Ffôn: 01248 671137

E-bost: nwa@alzheimers.org.uk

Swyddfa Cymru

16 Rhodfa Columbus
Glanfa Iwerydd
Caerdydd
CF10 4BY

Ffôn: 029 2048 0593

E-bost: rows@alzheimers.org.uk
alzheimers.org.uk

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau (BEL)

Red Rose House
Lancaster Road
Preston
Swydd Gaerhirfryn
PR1 1HB

Ffôn: 0800 88 22 00

(Llinell gymorth am ddim rhwng 8.30am a
6.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng
9.00am ac 1.00pm ar ddyddiau Sadwrn)

Ffôn testun: 0800 243 544

E-bost: BEL-Customer-Services@dwp.gsi.gov.uk
www.direct.gov.uk/disability-money

Galwadau ffôn am ddim o unrhyw ran
o'r Deyrnas Unedig i ofyn am gyngor a
gwybodaeth am fudd-daliadau i bobl anabl,
eu gofalwyr a'u cynrychiolwyr. Nodwch y gall
y cynghorwyr anfon ffurflenni a rhoi cyngor,
ond nid oes unrhyw gofnodion personol
ganddyn nhw.

British Bankers' Association (BBA)

Pinners Hall
105-108 Old Broad Street
Llundain
EC2N 1EX

Ffôn: 0207 2168811

www.bba.org.uk

Mae'r gymdeithas wedi cyhoeddi taflenni am
wahanol agweddau ar fancio. Mae'r taflenni
ar gael am ddim mewn Saesneg clir yn unig.
Y gymdeithas yma sydd hefyd yn gosod y
safonau o ran yr arferion bancio gorau.

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk/factsheets.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG)

Blwch Post 15118
Birmingham
B16 6GX

Ffôn: 0300 456 0300 (gwasanaethau i gwsmeriaid)
E-bost: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk
www.publicguardian.gov.uk

Mae taflenni ar gael am ddim am greu atwrneiaeth barhaus neu atwrneiaeth arhosol, ac am benodi dirprwy. Mae'r Llys Gwarchod yn yr un cyfeiriad.

Solicitors for the Elderly

Ystafell 17
Conbar House
Mead Lane
Hertford
SG13 7AP

Ffôn: 0844 567 6173
E-bost: admin@solicitorsfortheelderly.com
www.solicitorsfortheelderly.com

Cymdeithas Brydeinig yw Solicitors for the Elderly. Mae ei haelodau'n gyfreithwyr, yn fargyfreithwyr ac yn weithredwyr cyfreithiol sydd wedi ymrwymo i gynnig gwybodaeth gynhwysfawr ac annibynnol am faterion cyfreithiol i bobl hŷn a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Am wybodaeth ymarferol am bob agwedd ar fyw gyda dementia, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar Ddementia, sef 0845 3000 336 (yng Nghymru a Lloegr) neu 028 9066 4100 (yng Ngogledd Iwerddon), neu ewch i alzheimers.org.uk/factsheets.